WG35.S.112

# MARWNAD

NEU

# GOFFADWRIAETH

AM Y

## PARCH. THOMAS JONES,

*Gweinidog yr Efengyl yn Ninbych.*

YR HWN YMADAWODD O'R BYD HWN MEH. 16, 1820,

YN 64 OED.

GAN ROBERT JONES.

*"Y cyfiawn a fydd byth mewn Coffadwriaeth."*

PRIS
DWY GEINIOG.

LLANBEDR:
ARGRAFFWYD GAN J. LEWES JOHNS.

X205311147

# MARWNAD, &c.

Ar fesur a elwir *"Old Darby."*

YMDDYRCHA, adfywia fy Awen,
O ddyffryn wylofain, rho lef,
I eilio, neu lunio Galarnad,
Mae megis yn alwad o'r nef:
Hen arfer y'mhlith y duwiolion,
Ac ereill, rai dyfnion eu dysg,
Bob ennyd oedd gwneu'd Galarnadon,
Pan gwympai rhai mawrion o'u mysg.

2 Mehefin, yr *unfed ar bymtheg,*
Bydd côf am yr adeg a'r awr,
Yn Ninbych, o'r euraidd Ganwyllbren,
Aeth Canwyll oleu-wen i lawr;
Sef Thomas Jones enwog ei ddoniau,
Gymmerwyd trwy angau gwir yw;
Diammau bydd colli ei gyfeillach,
Yn golled nid bach i'r rhai byw.

3 O Gymru! mae synnu'n bresennol,
Fel gorchwyl naturiol i ti;

Nid rhyfedd, wrth ystyr dy golled,
Wel'd miloedd a'u llygaid yn lli ;
Trist newydd a fydd i'w ryfeddu,
Trwy'r deyrnas yn lledu y'mhob lle,
Ac hefyd i amryw deyrnasoedd,
O'r Gogledd i diroedd y De !

4 Cymdeithas odidog y Biblau,
A hwythau'r Cenadau'r un wedd,
Diammau fe'u llenwir o drallod,
Pan glywant ei fod yn ei fedd :—
Derbyniodd y gweniaid mewn cyni,
Do, ffrwyth ei haelioni 'n y wlad ;—
Un ydoedd ar amryw ystyriaeth,
Mewn tref a chym'dogaeth fel tad.

5 Tref Ddinbych dawelwych, O wyla !
O'r isaf hyd ucha' mewn dysg ;
Ymddengys ein colled yn ddirfawr,
Fe gwympodd Gwr mawr yn ein mysg,
O ! Sïon caes wisgoedd dy alar !
Ti gollaist dad hawddgar di dwyll,
Sef un o dy wylwyr duwiolaf,
Ffyddlonaf, ar puraf mewn pwyll.

6 Pa fodd yr amlygai 'nheimladau ?
Nis gallaf mewn geiriau mor gwneu'd;
Drych-deimlad fy meddwl yr awrhon,
Pa galon a ddichon ei ddywëu'd ?
Hen Feistr, Tad, Cyfaill mwynedd-gu,
Mae'n awr wedi gladdu'n y glyn :
Fel breuddwyd yw gènyf ei briddio,
Er hynny 'r gwir heno 'dyw hyn,

7 Ei enaid a ddïangodd yn hollol,
I fynwes ei nefol wir Naf ;
O'i enau tirionaf yn rhagor,
Un addysg na chyngor ni chaf ;
Ni chlywir ef byth yn pregethu,
Cynghori na dysgu'r un dyn ;—
Yr Arglwydd a'i galwodd o'r gorchwyl,
I'w breswyl wiw anwyl eu huu.

8 Fe'i galwyd yn ieuangc ei oedran,
Gan Arglwydd y winllan i'w waith ;
Yn hon y llafuriodd yn ffyddlon,
Nes gorphen yn dirion ei daith :
Cylch deugain ac wyth o flynyddau
Bu'n ffyddlawn hyd angau bob dydd;—
Tra dysglaer y'ngolwg y cedyrn,
Y cadwodd hoff addurn y ffydd.

9 Cyfododd gryn nifer o groesau ;—
Ca'dd lawer o ddyoddau yn ei ddydd;—
Tan offer a chyllyll meddygon,
Fe brofodd, do, loesion di ludd
Er hynny, llaw'r Arglwydd ei hunan,
A'i dygodd i'r làn o bob loes,
Bu wedi'n offeryn defnyddiol,
A hynod rinweddol drwy 'i oes.

10 Cyhoeddodd amrywiol o Lyfrau,
Sy'n unol â doniau gair Duw ;
Mewn symledd a dwyster yn ddiau,
Ceir tyst cydwybodau rhai byw :
Dyrchafu Mab Duw oedd ei ddyben,
Nid ceisio gwneu'd cynnen nôd câs,

A chael pechaduriaid i gredu,
  A gwir anrhydeddu rhad ras.

11 O! mor ddwys a chadarn a fyddai
  Pob pregeth lefarai efe!
Agorau pob rhan o'r Ysgrythur,
  Yn eglur yn llwybr ei lle;
Fe ddywedai'n rhagorol â geiriau,
  Pa lwybr a dylai i bob dyn;
Ac hefyd, dangosai'n ei fuchedd,
  Fod ffordd y gwirionedd yr un.

12 Bu megis *lamp* ddysglaer yn llosgi,
  I daenu goleuni drwyn gwlad;
Bydd ffrwyth ei lafur-waith a'i fawredd,
  I'r oesoedd mewn rhyfedd barhâd,
Cyfieithodd, Cyhoeddodd, wr hyddawn,
  Do, lyfrau trysor-lawn i'r saint,
Ei lafur i'r oesau sy'n dyfod,
  Fydd drysor rhyfeddod ei faint.

13 Trwm iawn fod areithiwr mor hynod,
  Y'ngwlad y mudandod bob dydd:
Y llaw a fu'n diwyd lyth'rènu,
  Ow! heddyw mae'n braenu'n y prydd;
O na b'asai dwy oes i'n daear
  I gaffael yr hawddgar wr hwn;
Fe gawsem fel cenedl a brodyr,
  O'i lafur wir gysur mi gwn.

14 Bu'n dad-maeth rhagorol o dirion,
  I eiddil blant Sion îs haul;

Am faethu neu gynnal y gweiniaid,
Nid hawdd i ni weled ei ail :
Fe gariodd iachusol athrawiaeth,
Trwy ei weinidogaeth bob darn ;
Diesgus fydd pawb fu'n ei wrando,
Pan gwrddant ef etto'n y farn.

15 Trwy amryw dreialon a chroesau,
Croes-wyntoedd gofidiau gan fyd,
Fe gadwodd ar bob math o dywydd,
Yn agos i'w Arglwydd o hyd :
A chan iddo fyw yn ei fywyd,
Mor hynod yn yspryd y nef ;
Yn amser diweddiad ei ddyddiau,
Tra agos bu enteu iddo ef.

16 Pan oedd yn ei glefyd diweddaf,
Tan law'r gelyn olaf a'i nerth ;
Pryd hynny fe welodd yn oleu,
Fod Crist a'i wir eiriau'n fawr werth :
Yn nyfnder loes angau'n ddi golliant,
Crist ydoedd ei fwyniant a'i fawl ;
Fe dystiodd ei fod yn ei 'nabod,
Yn brïod mwyn hynod mewn hawl.

17 Fe ddywedodd, wr cyfiawn 'rwy'n cofio,
Y byddai fe huno mewn hedd,
Nes dod yn gyffelyb i'w Geidwad,
Ar ddydd adgyfodiad o'i fedd :
Er bod pethau natur yn cilio,
'R oedd Crist iddo'n g'leuo drwy'r glyn;
Yn ddiau gadawodd ein daear,
Yn dirion a hawddgar fel hyn.

18 Uwch daear, uwch galar mi gofiaf,
Yn awr yn ddïanaf mae E ;
Mewn dinas na ddaw yn dragywydd,
Un gofid na llesgrwydd i'r lle :
Mae'n gweled y gwr a gyhoeddodd
Yn geidwad i filoedd tra fu ;
A'i foli mae'n hwylus ei dymher,
Y'nghanol rhyw lawer o lu!

19 Mae'n canfod y duwiol *Ferthyron*
Fu yma'n rhyw dystion ar daith,
Ac ereill yn ddysglaer eu gwisgoedd,
O'r gwir y *Cyfiaethodd* eu gwaith :
Yr awrhon o fewn i'r nef ardal, [gudd;
Mae'n gwel'd *William Gurnal** heb
Nis gwn rhwng y ddau fu mor enwog,
Pa gyfarch tra serchog y sydd !

20 Wel bellach mi dawaf a'm hiraeth,
Mi gofiais hen Arfaeth y Ne',
Lle trefnwyd pob peth yn dra eglur,
I ddilyn ei lwybr a'i le : [17, 26.
Hyd oesau lle seiliau'n preswylfod,—*Act.*
Pob peth i'n cyfarfod a fydd,
A welwyd yn arfaeth Jehofa
Cyn bod erioed yma'r un dydd.

21 Pob un aeth i afael â marw,
Ni ellir mo'i alw'n ei ol ;
A marw, mae yn goddiweddyd,
Y call yr un ffunud a'r ffol :

* Sylwch, 52 o ddyddiau y bu Mr. Jones byw, yn ol gorphen cyfieithu gwaith y Parch W. Gurnal.

'D oes ungwr diogel o'i einioes,
Nag oes, ar y ddaear i gyd ;
Doeth, anoeth, hen, ieuangc, ni wyddant,
Pa awr y dybenant ar byd.

22 Yr awrhon, mi welaf yn olau,
Na ddichon na doniau na dysg,
Na chyfoeth, nag unrhyw drysorau,
Mo atal grym angau'n ein mysg :
Yr unig beth pwysig i'w 'nabod,
Yw sylfaen ein cymmod heb gêl,
A'n gwisgo y'nghyfiawnder y meichiau,
Ac yna doed angau pan dêl.

23 O Iesu, 'nol galw dy weision,
(I wisgo 'r hardd goron) o'u gwaith :
I'r gweddill, dod ddeuparth o'th yspryd,
I'w gwneu'd yn fwy diwyd trwy'r daith ;
Er mwyn adeiladu dy eglwys,
A'i gwneuthur yn gymmwys i'th gôl ;
Ar ol i sêr dysglaer fachludo,
Cyfoda rai etto ar eu hol.

☞ Dymuna J. Lewes Johns hysbysu i'r Cyhoedd, ei fod yn Argraffu pob math o Argraff-waith am brisiau hynod o isel.